# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 13 Hydref 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gweldig

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei ddarparu i unigolion y mae llifogydd wedi effeithio arnynt er mwyn helpu i wella eu hamddiffynfeydd rhag llifogydd? (WAQ52564)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yn draddodiadol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu cyrff cyhoeddus perthnasol i adeiladu a chynnal a chadw gwaith gwella amddiffynfeydd yn eu hardaloedd. Yng Nghymru, mae'r prif gyrff cyhoeddus yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn treialu cynllun grant sydd â'r nod o ategu mesurau priodol i ddiogelu eiddo unigol rhag llifogydd. Nid yw'r grant yn daladwy'n uniongyrchol i berchnogion tai ond i awdurdodau lleol o dan ddarpariaethau Adran 20 o Ddeddf Draenio Tir 1991, sy'n golygu y gall perchnogion eiddo ofyn i'w hawdurdod lleol gynnal gwaith diogelu rhag llifogydd ar eu rhan gydag hwy yn talu amdano. Os bydd awdurdod lleol yn cytuno i gynnal gwaith o'r fath gall yr awdurdod lleol wneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gymorth grant. Os bydd yr awdurdod lleol yn llwyddo i ennill grant yna byddai perchennog yr eiddo yn cael budd o waith diogelu lleol i'w eiddo a byddai'n cyfrannu 15% tuag at gost y gwaith, gyda 85% yn dod wrth Lywodraeth y Cynulliad.

I fanteisio ar y cymorth hwn, y cam cyntaf i berchennog tŷ byddai ysgrifennu at ei awdurdod lleol a gofyn i'r Cyngor gynnal gwaith ar ei ran o dan y ddeddfwriaeth. Mae'n siŵr y gwyddoch fod y system yn dibynnu ar awdurdodau gweithredu i wneud cais am gymorth grant i Lywodraeth y Cynulliad. Yn ei dro, mae'n rhaid i'r awdurdodau gweithredu fod yn fodlon y gellir cyfiawnhau gwaith o'r fath a'i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn dechnegol cyn gwneud cais i Lywodraeth y Cynulliad am gymorth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro cynnydd ar nifer o geisiadau a phrosiectau o'r fath gyda'r nod o benderfynu ar ddichonoldeb hirdymor y cynllun grant. Unwaith y gwneir y penderfyniad hwn bydd swyddogion yn datblygu canllawiau manwl ar sut y gellid ymgorffori'r dull hwn yn y trefniadau ariannu cyffredinol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Faint o ffermwyr yng Nghymru sydd â thystysgrif cymhwysedd ar gyfer cludo da byw, er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyngor (CE) rhif 1/2005 a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2005? (WAQ52569)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae tua deng mil o gludwyr yng Nghymru wedi ennill tystysgrif o gymhwysedd i gludo da byw dros 65 cilometr fel rhan o weithgarwch economaidd, gan gydymffurfio â gofynion Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru sefyll eu prawf ar gyfer cludo da byw, er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyngor (CE) rhif 1/2005 a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2005? (WAQ52570)

**Elin Jones:** Nid oes cymorth ariannol i gludwyr sydd am ennill tystysgrif o gymhwysedd. Yn ystod y cyfnod cyflwyno rhwng mis Mawrth 2007 a mis Ebrill 2008 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd at 50 y cant o'r costau yr aethpwyd iddynt gan gludwyr wrth iddynt geisio ennill tystysgrif o gymhwysedd.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cost gweithredu cynllun Cyswllt y Llywodraeth i awdurdodau lleol Cymru, wedi’i ddadansoddi fesul cyngor? (WAQ52578)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu cynllun Cyswllt y Llywodraeth? (WAQ52579)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyllid ychwanegol sy’n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a/neu Lywodraeth y DU i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu cynllun Cyswllt y Llywodraeth? (WAQ52580)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae’r rhaglen Cyswllt Llywodraeth (Government Connect) yn cynnwys nifer o brosiectau ar wahân a fydd, ar ôl eu cwblhau, yn darparu seilwaith TGCh cenedlaethol a gynllunnir i alluogi awdurdodau lleol, Adrannau Llywodraeth y DU a’u hasiantaethau ar lefel genedlaethol a lleol, i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda’i gilydd, yn electronig, er mwyn hwyluso ac annog gwaith cydweithredol a thraws-asiantaethol mewn ffordd ddiogel.

O safbwynt Cymru, adran arweiniol Llywodraeth EM yw’r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ond noddir y rhaglen hefyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) a’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG).

Unwaith y’i gweithredir, bydd Allrwyd Ddiogel Cyswllt Llywodraeth (GCSx) yn darparu cysylltiad diogel â rhwydweithiau cenedlaethol eraill fel Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth (GSi), rhwydwaith sef Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau Llywodraeth EM, Rhwydwaith Cenedlaethol yr Heddlu, y Rhwydwaith Cyfiawnder Troseddol a Rhwydwaith Iechyd Cenedlaethol Lloegr. Golyga hyn y bydd holl awdurdodau lleol Cymru yn gallu defnyddio systemau fel ‘GC Mail’, a ddarperir gan y rhwydwaith GCSx fel cyfleuster derbyn ac anfon negeseuon e-bost, gydag atodiadau, i nifer o gyrff y sector cyhoeddus mewn ffordd fwy diogel nag sy’n bosibl ar hyn o bryd. Golyga hyn efallai na fydd angen mwyach anfon gwybodaeth bersonol neu wybodaeth sensitif o safbwynt masnachol drwy ddulliau llai diogel, fel cofbinau, drwy’r post ac ati.

Darperir y cyllid ar gyfer y cysylltiad GCSx yng Nghymru gan DWP ac nid Llywodraeth Cynulliad Cymru nac awdurdodau lleol.